# Bwletin newyddion Ansawdd Aer

Newid dy siwrne, newid dy wlad

## Amcanion

Dysgu sut gall teithio llesol gael effaith gadarnhaol ar y wlad. Ysgrifennu adroddiad / sgript bwletin newyddion am bwysigrwydd teithio llesol.

## Cynllun sesiwn

Gofynnwch i'r disgyblion hel syniadau am sut gall teithio llesol fod o fudd i'r wlad gyfan.

Anogwch y disgyblion i ysgrifennu adroddiad/sgript am sut gall teithio llesol fod o fudd i'r wlad. Gallant ddefnyddio eu taflen waith eu hunain i gael help gydag ysgrifennu adroddiad, neu addasu'r enghraifft a roddir. Mae opsiwn i'r disgyblion droi eu hadroddiad/ sgript yn fwletin newyddion am deithio llesol. Gweler yr estyniad am ragor o wybodaeth.

## Estyniad

Gall disgyblion nawr droi eu hadroddiad yn fwletin newyddion.

Rhowch 10 munud i'r disgyblion ymarfer eu bwletin newyddion a dod o hyd i unrhyw bropiau y maen nhw am eu defnyddio.
Pob disgybl/grŵp yn ei dro i gyflwyno eu bwletin newyddion.

Gofynnwch i'r disgyblion roi adborth adeiladol ar bob bwletin newyddion.
**Dewisol** – ffilmiwch fwletinau newyddion y disgyblion a'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu'r neges am bwysigrwydd teithio llesol.

## Estyniad

Os na all disgyblion ysgrifennu adroddiad ar fanteision teithio llesol, gallwch gynnal trafodaeth ddosbarth ar beth yw llygredd aer, beth sy'n ei achosi a beth ellir ei wneud i'w leihau.

### Amser

30–45 munud

### Adnoddau angenrheidiol

- Pin ysgrifennu a phapur i ysgrifennu'r adroddiad/sgript
- Propiau ar gyfer y bwletin newyddion (dewisol)

### Gweithgaredd unigol/grŵp

Chwaith

### Meysydd dysgu a phrofiad Cwricwlwm i Gymru

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824).

Taflen waith disgyblion:

# Bwletin newyddion Ansawdd Aer

Newid dy siwrne, newid dy wlad

STROLIWCH A ROLIWCH 16 – 27 Mawrth 2026
BIG WALK AND WHEEL 16 – 27 March 2026

Walk Wheel Cycle Trust

Headline sponsor/ prif noddwr SCHWALBE

## Cyfarwyddiadau

Gallwch ddefnyddio'r pum pwynt canlynol i'ch helpu i ysgrifennu adroddiad

- **Beth** yw'r stori?
- **Pam** mae'r stori'n bwysig? Sut - sut allwch chi fachu diddordeb y gynulleidfa?
- **Pwy** yw'r gynulleidfa?
- **Ble** – cofiwch eich bod yn siarad am fater sy'n effeithio ar y wlad gyfan.
- **Pryd** – gwnewch yn siŵr eich bod yn siarad am bwysigrwydd y pwnc NAWR!

## Sgript adroddiad enghreifftiol

Helo, dyma ichi fwletin newyddion pwysig! Mae llygredd yn effeithio ar yr aer rydyn ni'n ei anadlu ac mae'n achosi newid hinsawdd.

Mae hyn yn ddrwg iawn oherwydd bydd y capiau iâ i gyd yn toddi, a gwneud i lefel y môr godi a bydd yr eirth gwyn a'r pengwiniaid yn colli eu cynefin.

Mae llygredd yn dod o bob math o leoedd, ond yma yn y Deyrnas Unedig, trafnidiaeth yw'r prif achos.

Mae angen inni weithredu nawr! Mae llawer o bethau y gallwn eu gwneud. Er enghraifft, gallwn ddewis cerdded neu feicio yn hytrach na theithio yn y car.

Pe byddai llawer o bobl yn gwneud hyn, byddai llai o geir ar y ffyrdd i achosi llygredd, ac felly byddai'r aer rydyn ni'n ei anadlu'n lanach. Bydd yn fwy diogel inni fynd i'r ysgol hefyd.

Beth am roi cynnig ar wneud un siwrne'r wythnos hon heb ddefnyddio'r car, a gweld sut fyddwch chi'n teimlo?

Diolch ichi am roi eich amser i wrando arnom heddiw.

Mae Walk Wheel Cycle Trust yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (rhif 326550), Yr Alban (SC039263) a Gweriniaeth Iwerddon (20206824).